

МАӨЪ МАӨОНЪВИЧЪ: СҮФІЕІТІАІД NEWYDD О’Р
МАВІНОГІ І (НЕН) RWSIEG

DMITRI HRAPOF

Y cwestiwn cyntaf, efallai, yw a oes angen cyfieithiad newydd, a dau gyfieithiad o’r Mabinogi i’r Rwsieg yn bodoli’n barod? Yn anffodus, mae’r cyfieithiadau hynny yn anghyflawn ac weithiau yn wallus. Cafwyd y cyfieithiad cyntaf gan Liudmila Volodarskaia (2000): *Кельты — Валлийские сказания — Мабиногион* [Celtiaid — Chwedlau Cymreig — Mabinogion], ac am fod hwn yn gyfieithiad o Saesneg Charlotte Guest, mae’n Fictoraidd iawn ei naws (gw. yr adolygiad gan Parina (2003)). Gan Vadim Erlichman y cafwyd yr ail gyfieithiad, *Мабиногион. Волшебные легенды Уэльса* [Mabinogion. Chwedlau Hudol Cymru], a hwnnw bellach wedi ei argraffu ddwywaith (Erlichman 1995; Erlichman 2002). Trafodir yr argraffiad cyntaf gan Parina (2003) a’r ail argraffiad gan A. Falilejev (2002). Mae Erlichman yn dal iddo gyfieithu o destun Llyfr Coch Hergest – ac felly o Gymraeg Canol – ond oherwydd y camgymeriadau niferus, gwêl yr adolygwyr fod lle i amau a yw hynny’n hollol wir. Digon yw nodi i’r llythyren <f> [v] Gymraeg gael ei thrawsgrifo yn <ф> [f] Rwsieg, yn hytrach na fel <в> [v], er mwyn cadw enwau yn ‘hudol’ ac yn ‘egsotig’ (Erlichman 1995: 216).

Felly, aethpwyd ati i baratoi cyfieithiad newydd, a hynny i’r Hen Rwsieg. Cyfieithiwyd yn gyntaf y Bedwaredd Gainc, sy’n dechrau fel hyn (Andrwsiac & Hrapof 2014):

*Math uab Mathonwy oed arglwyd ar Wyned, a Pryderi uab Pwyll
oed arglwyd ar un cantref ar ugeint yn y Deheu. Sef oed y rei
hynny, seith cantref Dyuet, a seith Morgannhwc, a phedwar
Kyredigyawn, a thri Ystrat Tywi.*

*Ac yn yr oes honno Math uab Mathonwy ny bydei uyw,
namyn tra uei y deudroet ymlyc croth morwyn, onyt kynwryf ryuel
a’y llesteirei. Sef oed yn uorwyn gyt ac ef, Goewin uerch Pebin o
Dol Pebin yn Aruon. A honno teccaf morwyn oed yn y hoes o’r a
wydit yno. Ac ynteu yg Kaer Dathyl yn Aruon yd oed y wastatrwyd.
Ac ny allei gylchu y wlat, namyn Giluathwy uab Don, [a Gwydyon]
uab Don, y nyeint ueibon y chwaer, a’r teulu gyt ac wy [a aei] y
gylchu y wlat drostaw.*

(Williams 1930: 67)

Маөъ Маөонъвичъ бѣ володѣа Гвинедѣмъ а Првдерїи
 Поуиличъ бѣ володѣа сътогородиѣмъ южънымъ · А се быша
 :z: сътогородии Диведьскыхъ и :z: сътогородии
 Моръгануожьскыхъ и :d: Кередигїоньскыхъ и :g: Дольныхъ
 Тавиискыхъ

Тѣми часы Маөъ Маөоноуичъ толи живѣ бѣ оли же нозѣ
 ѣго быста на лонѣ дѣвичѣмъ ѣгда бо таготы ратьныхъ томоу
 не борониша · И дѣва си бѣ Гоѣвинъ Пибиничъна Ѡ Дола Ѡ
 Пибиниа иже въ Арвонѣ · и слоувъши та лѣплыши вѣсѣхъ
 тѣгды знаѣмыхъ · онъ же Ѡ года до года сѣда бѣ въ кремли
 Даөлльскѣмъ иже въ Арвонѣ · И не мога по полюдѣю ити аже
 и Гилоуаїтоуи Доничъ и Гоуїдионъ Доничъ иже сестрича ѣго
 ходиста съ дружиноѣ по полюдиѣ въ ѣго мѣсто

Mae'r cyfieithiad yn seiliedig yn bennaf ar olygiad Ifor Williams (1930), gan gyfeirio hefyd at y golygiad o *Math Uab Mathonwy* gan Ian Hughes (2013) a *The Mabinogion*, sef cyfieithiad Sioned Davies (2007). Wrth baratoi'r testun, paratodd Hrapof gyfieithiad llythrennol o'r testun Cymraeg Canol i Rwsieg Modern, gan ddefnyddio GPC ar-lein a hefyd eiriadur Cymraeg-Rwsieg a grëwyd yn arbennig (Hrapov 2003-6, Khrapov 2015). Wedyn, bu Andriy Andrwsiac (Андрій Андрусак) o Kiev, Wcráin, yn paratoi cyfieithiad llenyddol o Rwsieg i Hen Rwsieg. Trwy gyfrwng yr Wcráineg y digwyddodd yr holl drafodaeth yn ystod y broses o baratoi'r gwaith terfynol.

Pam Hen Rwsieg? Credwn ei bod hi'n fuddiol iawn ar gyfer y gwaith hwn am iddi sicrhau bod effaith y testun Rwsieg yn debyg i eiddo'r testun Cymraeg: h.y., bydd ymateb y darllenydd Rwsieg yn debyg i ymateb y darllenydd Cymraeg i'r testun canoloesol. Mae Hen Rwsieg yr un mor ddealladwy i siaradwyr Rwsieg Modern (a siaradwyr Wcráineg a Belarwsieg) ag yw Cymraeg Canol i Gymry cyfoes. Yn ogystal, gall yr orgraff amrywio mewn testunau Hen Rwsieg, fel sy'n digwydd yn achos Cymraeg Canol, a chadwyd y nodwedd hon yn ein cyfieithiad. Aeth enwau tadenwol megis 'Math uab Mathonwy' a 'Goewin uerch Pebin' yn 'Маөъ Маөонъвичъ' a 'Гоѣвинъ Пибиничъна', a hynny'n debyg i ffurfiau enwau megis Dobrynia Nikitich a Nastasia Mikulichna o'r chwedlau Rwsieg a'r былины ('bylina', ffurf o epig lafar Slafaidd: gw. Bailey & Ivanova 2015). Cyfieithwyd 'heb' ('ebe') bob tro fel 'рече/рекоша', er bod amryw ffordd y gellir cyflwyno araith uniongyrchol yn Rwsieg.

Er mwyn gwneud y testun yn debycach i gronclau Rwsieg, mae pobl Gwynedd (Math, Gwydion, Llew ac ati), yn siarad tafodiaith ogleddol

Nofgorod, a nodweddir, er enghraifft gan <ц> [ts] yn lle <ч> [tʃ] Hen Rwsieg ‘safonol’ (gw. Zalizniak 2004). Dyma ran o’r testun:

Ac nachaf y liw a’y wed a’y ansawd yn atueilaw o’y charyat, hyt nat oed hawd y adnabot.

Sef a wnaeth Guydyon y urawd, synnyeit dydgweith arnaw yn graf. ‘A was,’ heb ef, ‘pa derw ytti?’ ‘Pa ham?’ heb ynteu. ‘Beth a wely di arnaf i?’ ‘Gwelaf arnat,’ heb ef, ‘colli dy bryt a’th liw, a pha deryw yti?’

(Williams 1930: 68)

И се ЮГО ЦВѢТЬ И ВИДЪ И СВОИСТВО ИСТЪЛЪША ЛЮБЪВЪЖ КЪ НІСИ ·
и ТЪМЪ НЕ БѢ ЛЪЗѢ Ы ПАЧЕ ПОЗНАТИ

Одиноуж Гоуидионъ братъ ЮГО ВЪЗЪРѢ НАНЪ И РЕЧЕ ·
Целовѣце цѣто ти са стало? И рече овъ Цѣто же? Цѣто на мнѣ
видиши? И рече Гоуидионъ братъ ЮГО · Вижу та изгоубивѣша
образъ свои и квѣтъ · тако цѣто же ти естъ?

Mae morffoleg Hen Rwsieg yn debycach o lawer i Rwsieg Cyfoes nag yw, er enghraifft, Saesneg Tolkien i Saesneg Bēopulf, ac mae nodweddiion eraill hefyd yn ei gwneud yn debycach i’r Gymraeg (Canol a Modern). Yn un peth, mae’r rhif deuol ar gael yn Hen Rwsieg, fel yn y Gymraeg, ac mae defnyddio hwn yn gallu creu effaith arbennig. Eto, yn nifer amserau’r gorffennol y gwelir y gwahaniaeth (a’r tebygrwydd) pwysicaf. Nid oes ond un amser gorffennol synthetig yn Rwsieg Cyfoes (Kemple 2012: 62), tra mae tri yn Gymraeg Canol: y gorffennol, yr amherffaith a’r gorberffaith (Evans 1994: 109-12). Pedwar – yr amherffaith, y gorffennol penodol, y perffaith a’r gorberffaith – sydd yn Hen Rwsieg (Zalizniak 2004: 134).

Credaf felly fod Hen Rwsieg yn llwyddo i gyfleu mwy o flas y Mabinogi gwreiddiol i ddarllenwyr Slafaidd cyfoes. Y mae pob un o’r Pedair Cainc wedi eu cyfieithu gennym fel hyn, a gobeithiwn eu cyhoeddi maes o law gyda rhagymadrodd, nodiadau a llyfryddiaeth.

Hoffwn ychwanegu un nodyn cyn cloi. Mae’r hen chwedl hon, *Math uab Mathonwy*, yn dangos sut y gall rhyfel rhwng brodyr ddechrau am resymau cudd. Ar hyn o bryd, yn anffodus, mae rhyfel cartref yn Wcráin, ac mae’r cyfieithiad hwn yn ein hatgoffa bod rhaid cofio ein diwylliant, a thrwy hynny geisio heddwch.

Ysgolhaig annibynnol

Llyfryddiaeth

- Andrwsiac**, A. & **Hrapof**, D., 2016, Мабиноги таже и рекома Молодъча повѣсть [Mabinogion] (<http://www.cymraeg.ru/mabinogi.html> [cyrchwyd 19.08.2016]).
- Bailey**, J. & **Ivanova**, T., 2015, *An Anthology of Russian Folk Epics*, NY: M.E. Sharpe.
- Davies**, S. (cyf.), 2007, *The Mabinogion*, Oxford: Oxford University Press.
- Erlichman**, V. (cyf.), 1995, *Мабиногион. Волшебные легенды Уэльса* [Mabinogion. Chwedlau hudol Cymru], Mosgo: Ladomir.
- Erlichman**, V. (cyf.), 2002, *Мабиногион. Легенды средневекового Уэльса* [Mabinogion. Chwedlau Cymru Canoloesol], Mosgo: Agraf.
- Evans**, D. S., 1964, *A Grammar of Middle Welsh*, Dublin: DIAS.
- Falileyev**, A., 2002, Adolygiad o Erlichman (2002), *Критическая масса* [Màs Critigol] 1, 39-42.
- GPC Online**, 2016, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. <http://www.geiriadur.ac.uk> [cyrchwyd 19.08.2016].
- Hrapof**, D., 2003-16, *Geiriadur Cymraeg-Rwsieg* (<http://www.cymraeg.ru/geiriadur> [cyrchwyd 19.08.2016]).
- Hughes**, I., 2013 (gol.), *Math uab Mathonwy: the Fourth Branch of the Mabinogi*, Dublin: DIAS.
- Kempe**, B., 2012, *Essential Russian Grammar*, Mineola: Dover Publications.
- Khrapov**, D., 2015, ‘Daoulagad – a Celto-Slavic OCR Dictionary’, in: Johnston, D., Parina, E., & Fomin, M., eds., ‘*Yn llawen iawn, yn llawn iaith*’: *Proceedings of the 6th International Colloquium of Societas Celto-Slavica*. *Studia Celto-Slavica* 7, Aberystwyth, 283-4.
- Parina**, E., 2003, ‘Обзор переводов “Четырёх ветвей Мабиноги”’ [Adolygiad o gyfieithiadau o Pedair Cainc y Mabinogi], yn: *Язык и культура кельтов. Материалы IX коллоквиума*. [Iaith a Diwylliant y Celtiaid. *Trafodion y 9fed gynhadledd*], St. Petersburg: Nauka, 96-104.
- Volodarskaya**, L., 2000, *Кельты. Валлийские сказания*. [Y Celtiaid. Chwedlau Cymraeg]. Mosgo: Art-Flex.
- Williams**, I., 1930, *Pedeir Keinc y Mabinogi*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Zaliznjak**, A. A., 2004, *Древненовгородский диалект* [Hen Dafodiaith Nofgorod], Mosgo: Jazyki slavjanskoy kultury.